


## Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 5 / No. 5 TOCIO / PRUNING

Ystyr tocio yw torri blagur a changhennau oddi ar goed a llwyni i gael y canlyniad a ddymunir. Gall hyn fod:

1. I greu'r siâp a ddymunir mewn coeden ifanc.
  2. I ail-siapiro ac adnewyddu hen goeden.
  3. I gael gwared ar bren marw.
  4. I adael golau i ben y goeden i helpu'r pren i aeddfedu a chynhyrchu ffrwythau.
  5. I adael yr aer i lifo trwy'r pen i leihau'r perygl o afiechyd ffwngaid.
  6. I dorri canghennau sy'n croesi sy'n cael eu difrodi trwy rwbio yn ei gilydd.
  7. I ysgogi twf newydd a chynyddu grym – tocio gaeaf.
  8. I atal tyfiant ac ysgogi creu blagur ffrwythau – tocio haf.
- ❖ Dylid gwneud y gwaith tocio gydag offer glân a miniog.
  - ❖ Os ydych chi'n gweithio ar goeden afiach, dylech ddiheintio offer cyn symud ymlaen i'r goeden nesaf. Bydd hyn yn lleihau'r perygl o groes lygru.
  - ❖ Gwisgwch offer diogelwch, o leiaf gogls a helmed wrth weithio ar goed aeddfed.

### Yr Egwyddorion Sylfaenol


Credir yn aml fod tocio yn dasg anodd a chymhleth. Os ydych yn gallu deall yr egwyddorion sylfaenol, daw'n gyfres o gamau gweddol hawdd a rhesymegol.



Mae pob coeden ffrwythau a llwyni ffrwythau yn ymateb fel a ganlyn i'r dasg o docio. Gelwir y blaguryn ar flaen yr eginyn yn "flaguryn blaen". Mae ganddo nodweddion arbennig sy'n golygu ei fod yn cynhyrchu atalydd cemegol sy'n teithio i lawr y coesyn o dan ddylanwad disgrychiant. Effaith y cemegyn hwn yw cau'r blagur i lawr o dan y blaguryn blaen. Golyga hyn bod gan y blaguryn blaen flaenoriaeth dros eraill o ran y cyflenwad fwyd. Bydd tyfiant estyn yn digwydd gyda'r blaguryn blaen yn tyfu i fyny tua'r haul. Mae hyn o fantais i'r planhigyn gan ei fod yn cynyddu'r cyfle i'r dail gael cymaint o heulwen â phosibl ac felly cymaint â phosibl o fwyd.

Os caiff y blaguryn blaen ei dorri trwy docio neu gan bla neu afiechyd, ni chaiff yr atalydd cemegol ei gynhyrchu. Y canlyniad yw mai'r blaguryn nesaf i lawr fydd y blaguryn blaen. Mae'n cymryd y rôl ac yn dechrau tyfu a chynhyrchu'r cemegyn. Yn aml, bydd yr ail a'r trydydd blaguryn i lawr y coesyn hefyd yn dechrau tyfu cyn i'r cemegyn gael cyfle i'w cau i lawr. Fel arfer, nid ydynt yn datblygu mor gryf â'r blaguryn blaen.

Mae'r blagur yn tueddu i dyfu i'r cyfeiriad y maent yn pwyntio. Os edrychwch chi'n ofalus ar eginyn, gallwch weld o flaen llaw i ba ffordd y byddai pob un yn eginu pe bai'n gallu tyfu. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gallwch ddewis pa flaguryn yr ydych am fod yn flaguryn blaen newydd a thocio yn union uwch ei ben. Fel hyn, gallwch gynllunio siâp coeden neu lwyn ffrwythau. Gyda choed megis coed tal, coed hanner tal a choed llwyni, a hefyd ffrwythau meddal megis cyrens duon, mae'n ddymunol cynhyrchu pen o siâp gwydr gwin gyda chanol agored.



## Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 5 / No. 5 TOCIO / PRUNING


### Tocio yn y gaeaf a thocio yn yr haf

Gallwch docio ar ddwy adeg bwysig o'r flwyddyn. Yn y gaeaf, bydd y gwaith tocio'n digwydd pan fydd y goeden neu'r llwyn ffrwythau wedi colli ei ddail ac yng nghwsg, h.y. mis Rhagfyr tan fis Mawrth. Yn yr haf, bydd y gwaith tocio'n digwydd pan fod y planhigyn yn ei lawn dwf, h.y. mis Gorffennaf neu fis Awst. Mae'r ddau gyfnod tocio'n cael effaith wahanol iawn ar y goeden neu'r llwyn ffrwythau.

### **Tocio yn y Gaeaf**

Yn y gaeaf, mae'r sudd sy'n cynnwys storfa fwyd y planhigyn wedi draenio i lawr i'r coesyn isaf a'r system wreiddiau uchaf. Gyda thocio, nid yw'r pren a dorri yn cynnwys unrhyw fwyd. Bydd y goeden yn dechrau ail-dyfu yn y gwanwyn ac mae llai o bren ar ôl i'w fwydo. Yr effaith yw bod gan yr egin newydd fwy o fwyd na phetai tocio heb ddigwydd. Mae'r tyfiant felly'n fwy grymus. Y mwyaf o bren sy'n cael ei docio yn ystod y gaeaf, y mwyaf grymus fydd y twf newydd yn y gwanwyn. Defnyddir tocio gaeaf fel tocio ffurfiannol ym mlynnyddoedd cynnar bywyd y goeden,

neu fel modd o adnewyddu hen goeden sydd wedi'i hesgeuluso.




### **Tocio yn yr haf**

Yn ystod yr haf, mae coeden neu lwyn ffrwythau'n tyfu'n frwd. Mae'r cyflenwad bwyd wedi'i daenu ar draws canghennau a dail y coed. Wrth dorri'r pren, caiff y bwyd ei dorri ymaith hefyd. Mae cyflenwad bwyd y planhigyn yn prinhaus ac nid yw'r twf newydd yn rymus. Mae'r effaith hefyd yn newid y cydbwysedd cemegol tu fewn i'r goeden, sy'n ysgogi creu egin ffrwythau. Defnyddir y broses o docio yn yr haf ar gyfer rhai mathau'n

unig o ffrwythau megis gwyntyllau a choed ungoes. Bydd y coed hynny sy'n cael eu docio yn yr haf yn cael eu docio ym mis Gorffennaf neu fis Awst ac ni chant eu docio yn y gaeaf. Dim ond tyfiant y flwyddyn bresennol sy'n cael ei docio yn ystod yr haf.

### Siapio coed ifanc




Coed ifanc yw coed blwydd oed a impiwyd y flwyddyn gynt. Fel arfer mae'n cynnwys un coesyn syth tua 1 - 2 metr o uchder. Dyma'r math rhataf o goed i'w prynu gan nad ydynt wedi treulio llawer o amser yn y blanhigfa. Dyma hefyd y math mwyaf hyblyg gan fod modd eu docio i wahanol siapiau, h.y. coed tal, coed hanner tal, llwyni, gwyntyllau, a choed ungoes.

I hyfforddi'r goeden ifanc i dyfu i goeden dal gyda choesyn clir o 2 metr, rhaid gadael iddo dyfu i ryw 3 metr o uchder. Yna caiff y pen ei dorri i fwrdd ychydig uwchben eginyn, tua 2 metr o uchder. Gwneir hyn yn ystod y gaeaf.

## Taflen Wybodaeth Glasu / Glasu Information Sheet – Rhif 5 / No. 5 TOCIO / PRUNING

Y gwanwyn canlynol, dylai tri blaguryn ddatblygu o'r tri eginyn uchaf. Caniateir i'r blagur hyn ddatblygu a byddant yn cael eu tocio nôl i ryw trydedd ran o'u uchder y gaeaf canlynol. O ganlyniad, bydd pob blaguryn sydd wedi'i docio yn cynhyrchu tri eginyn y gwanwyn canlynol, gan gynhyrchu coeden dal gyda fframwaith o naw cangen.



Petai'r goeden wedi'i thocio ar 1.5 medr yn y gaeaf cyntaf, byddai wedi cynhyrchu coeden hanner tal. Petai wedi'i thocio ar 0.5 medr, llwyn fyddai'r canlyniad.

### Adnewyddu coed a esgeuluswyd

Mae nifer o berllannau hŷn yn cynnwys coed sydd heb gael llawer neu ddim sylw o gwbl ers sawl blwyddyn. O ganlyniad

mae'r canghennau'n rhy llawn ac mae ansawdd y ffrwythau'n sâl iawn. Mae'n bosibl eu tocio'n llwyddiannus fel bod eu hiechyd yn gwella ac yn cynhyrchu ffrwythau llawer gwell.

Yn ôl y dywediad, os yw coeden ffrwythau aeddfed wedi'i thocio'n dda 'dylech fedru taflu'ch het trwy ei chanopi'. Mae hyn yn arwydd bod canol y canopi'n glir fel bod golau ac aer yn gallu treiddio i'r canol. Gallwch adfer hen goed sydd wedi'u hesgeuluso i'r cyflwr hwn trwy dorri canghennau cyfan o'r canol. Torrwch y rhai sydd wedi marw, sydd â chlefyd neu sydd ar farw, yn ogystal â'r rhai gwan a'r rhai sy'n croesi. Tociwch nhw nôl i'r man lle maent yn tyfu allan o'r brif system ganghennau. Pan fyddwch yn torri canghennau, gwnewch y toriad terfynol wrth goler y gangen. Nid oes angen paentio dros arwynebau sydd wedi'u torri. Yn ôl ymchwil cyfoes, mae hyn yn aneffeithiol. Bydd y goeden yn gwella'n well heb y driniaeth hon.

Mae'n bosibl y bydd nifer o'r canghennau mwyaf yr ydych am eu torri yn drwm iawn. Os byddwch yn ceisio eu torri gydag un toriad yn unig, mae perygl i'r rhisgl rwygo. Torrwch nhw ychydig ar y tro gan ddechrau ar ben y gangen a gweithio tua'r boncyff. I dorri'r 50 cms olaf oddi ar unrhyw gangen, defnyddiwch y dull tri thoriad:

1. Mae'r toriad cyntaf yn rhwystro'r rhisgl rhag cael ei rwygo o'r boncyff wrth i'r gangen syrthio. Rhowch lafn y llif ar ochr isaf y gangen, 15 cms allan o'r boncyff. Torrwch yr holl ffordd ar draws waelod y gangen gan dorri tua chwarter o'r ffordd ar draws y gangen. Os ewch yn ddyfnach, mae posibilrwydd y bydd y llif yn cloi.
2. Gwnewch yr ail doriad ychydig tu allan i'r toriad cyntaf (i ffordd o'r boncyff). Torrwch o'r ochr uchaf yr holl ffordd trwy'r gangen tan iddi syrthio o'r goeden.
3. Gallwch wneud y trydydd toriad o ben y gangen, ychydig tu allan i goler y gangen. Torrwch ar ongl i lawr ac oddi wrth y goeden.

